CARDIFF
CAERDYDD

# CYNGOR CAERDYDD
# CARDIFF COUNCIL
# Adroddiad Blynyddol i Aelodau Etholedig

**Cynghorydd/ Councillor: Joe Carter** **Plaid/ Party: Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

**Ward: Pentwyn** **Etholwyd yn Gyntaf/ First Elected: 10/06/2004**

Mae'r adroddiad yn nodi fy mhrif weithgareddau dros flwyddyn ddinesig 2017/18 sy'n dod i ben 24 Mai 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr a dim at unrhyw ddiben arall.

**Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau**

Ro'n i'n falch o gael fy ail-ethol fel Cynghorydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar gyfer Pentwyn a Llanedern ochr yn ochr â fy nghydweithwyr newydd, y Cynghorwyr Dan Naughton ac Emma Sandrey.

Rwy'n aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Chymunedau. Fi yw Chwip fy mhlaid, ac rwyf wedi cysgodi'r Aelodau Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Thai a Chymunedau.

Gellir gweld y Cofnod Presenoldeb yma: Presenoldeb
Gellir gweld y Cofnod Dysgu a Datblygu yma: Dysgu

**Adran 2: Gweithgareddau Etholaeth**

Dros y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi ymdrin â mwy na 300 darn o waith achos, yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion gan gynnwys; casgliadau gwastraff a thipio anghyfreithlon, anghenion tai a chynnal a chadw, cyfleusterau a chynnal a chadw parciau, cynnal a chadw awyr agored o ddodrefn a choed stryd, parcio niwsans, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyfleusterau cymunedol, gofal cymdeithasol a cheudyllau.

Roedd hi'n fraint gweld cae chwarae newydd Coed y Gores yn cael ei agor, project a gynigiwyd yn 2012 yn y lle cyntaf, a gweld ailddatblygiad Maelfa yn dod ymlaen yn dda.

Rwy'n arbennig o falch o'r gwaith achos rwyf wedi'i wneud sydd wedi gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau preswylwyr unigol, yn enwedig y rheiny sydd wedi cael problemau cyrchu tai a gofal cymdeithasol, delio â chymdogion anystyriol ac ymdrin â phroblemau rheoli plâu.

Rwyf hefyd wedi cynnal 15 Cymhorthfa yn hyb y Powerhouse yn Llanedern.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wedi ymwneud â sawl deiseb i'r Cyngor, gan gynnwys; problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol ym Mhentwyn, adeilad gwag Pentwyn Arms, gwasanaethau bws i blant sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Llanisien, problemau parcio y tu allan i Gampws Met Caerdydd ar Circle Way West, cael gwared ar y caffi yng Nghanolfan Hamdden Pentwyn a dirywiad y llyn ym Mharc Coed Y Nant.

Rwyf wedi bod yn Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Llanedern ers 2015 ac wedi ymuno ag Ysgol Gynradd Gatholig St Philip Evans eleni.

**Gweithgareddau / Materion Eraill**

Rwyf wedi cymryd rhan mewn casgliadau sbwriel rheolaidd a drefnwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus a Chasglwyr Pentwyn, rwyf wedi mynychu cyfarfodydd PACT yn rheolaidd yn Llanedern a Phentwyn, ac wedi cymryd rhan yng Ngrŵp Cymunedol Llanedern a Phentwyn.  Rwyf wedi mynychu digwyddiadau cymunedol a gynhaliwyd gan Heddlu De Cymru, hyb y Powerhouse yn Llanedern ac eglwysi lleol, ac wedi cwrdd â Met Caerdydd ar sawl achlysur mewn perthynas â materion ward.

**Y Cynghorydd Joe Carter**